trefriw
outdoors | awyr agored

# Trail Trywydd 8

**TRO TREFRIW 8** - O'r maes parcio gyferbyn â'r Felin Wlân trowch i'r dde i'r ffordd fawr ac ewch dros y bont. Ymhen y bont trowch i'r chwith i fyny'r allt, ac ar ôl 30m fe welwch chi, ar y chwith, lwybr wedi'i farcio. Dilynwch y llwybr hyd at Raeadr y Tylwyth Teg. Fan hyn mae'r llwybr yn troi yn ôl arno'i hun ac yn arwain at y bont droed (Pont Peniel) uwchben. Dilynwch y llwybr ar draws y bont, ac ewch yn syth yn eich blaen i gyrraedd y ffordd. Daliwch yn syth yn eich blaen i fyny'r bryn gan droi i'r dde i fyny'r grisiau. Dringwch y grisiau i'r ffordd, wedyn trowch i'r dde. Ar ôl oddeutu 30m mae llwybr wedi'i farcio'n arwain i ffwrdd i'r chwith. Dilynwch y llwybr ar i fyny drwy goedwig gymysg. Pan gyrhaeddwch chi gyffordd yn y llwybrau ewch ar hyd y llwybr isaf i'r dde. Mae'r llwybr yn dringo uwchben Dyffryn Crafnant; mae golygfeydd da i'w cael oddi yma o'r cwm ac o adeiladau gwaith mwynau'r Klondyke islaw.

Mae'r llwybr yn fwy gwastad fan hyn, ac wrth wal, gadewch y prif lwybr (Tro 5) a throwch i'r chwith drwy'r wal. Dilynwch y wal i fyny'r bryn at gamfa. Mae'r gamfa yn arwain i gyfeiriad Penrallt, lle mae'r llwybr yn mynd heibio i adeiladau ac i lawr y llwybr amlwg i'r chwith at ffordd darmac. Trowch i'r dde ar hyd y ffordd a cherddwch oddeutu 200m at arwydd sy'n cyfeirio at Eglwys Llanrhychwyn. Ewch ar draws y cae ac ychydig i'r dde i gyrraedd yr eglwys.

Yna dilynwch y llwybr ar hyd y gwrych ac i lawr y bryn drwy giatiau, heibio bwthyn ac at dŷ fferm. Trowch i'r dde yno ac ewch drwy giât i mewn i'r coed. Dilynwch y llwybr amlwg sy'n gogwyddo i'r chwith. Ar ôl oddeutu hanner cilomedr fe ddowch chi at dro lle bydd arwydd yn eich cyfeirio i'r chwith yn ymyl craig fawr. Mae'r llwybr yn arwain i lawr at ffordd Llanrhychwyn, lle mae angen troi i'r dde ar hyd y ffordd o gwmpas tro dwbl at lwybr (wedi'i farcio) ar y chwith.

Mae'r llwybr yn arwain ymhen ychydig at gyfres o risiau serth a llithrig, ac yna ar draws pont. Ewch yn eich blaen ar i lawr ar hyd glan chwith y nant nes eich bod chi'n cyrraedd ffordd goedwigaeth yn ymyl rhyd. Ewch ar draws y ffordd a thros y gamfa ac ymlaen ar y llwybr sy'n arwain at giât ac yna camfa ysgolion dros ffens. Ewch dros y gamfa ac anwybyddwch y giatiau sydd ar y chwith. Ewch drwy'r ffens, a dilynwch y llwybr i lawr yr allt nes y dowch chi allan ar y ffordd o Drefriw i Lanrwst.

Croeswch y ffordd hon, ac ewch yn syth yn eich blaen ar lwybr at gamfa a llwybr sy'n arwain ar draws caeau at bont grog Gower. Trowch i'r chwith tuag at Drefriw ar y llwybr tarmac ac yn ôl i'ch man cychwyn. Pellter: 6km / 3.7mi

